

Tasg 1

Beth ydych chi'n feddwl o siocled?


Atebwch y cwestiynau yma.

1. Beth ydych chi'n feddwl o siocled?
Siaradwch am hyn ac ysgrifennwch farn y grŵp yn y grid yma – colofn 2.

Enw	Barn am siocled	Barn am fwyd siocled

Dyma ychydig o help i chi:

Mae siocled yn flasus. felys fendigedig llyfn	Chocolate is delicious. sweet gorgeous smooth
Mae siocled llaeth yn well na ... Mae siocled gwyn yn ...	Milk chocolate is better than ... White chocolate is ...
Mae siocled tywyll yn chwerw. llai melys	Dark chocolate is bitter. less sweet
Mae ychydig o siocled yn iawn. Mae gormod o siocled yn afiach. ddrwg i chi	A little chocolate is fine. Too much chocolate is unhealthy. bad for you



Dw i'n meddwl bod siocled yn ... achos ...	I think that chocolate is ... because ...
Dw i'n cytuno achos ...	I agree because ...
Dw i ddim yn cytuno achos ...	I don't agree because ...
Wyt ti'n cytuno?	Do you agree?
Ydw, achos ...	Yes, because ...
Nac ydw, achos ...	No, because ...

2. Beth ydych chi'n feddwl o ...?

- siocled poeth
- cacen / teisen siocled
- grawnfwyd siocled
- creision siocled
- past dannedd siocled

Siaradwch am hyn ac ysgrifennwch farn y grŵp yn y grid uchod – colofn 3.

3. Beth ydy dy hoff siocled di? Pam? Beth ydy'ch hoff siocled chi? Pam?

Siaradwch am hyn mewn paruau.

Fy hoff siocled i ydy ... achos ...

Mae'n well gen i ... na ... achos mae ... yn rhy felys.

yn rhy chwerw

yn rhy ddrud

Mae'n well gyda fi i ... na ... achos mae ... yn rhy felys.

yn rhy chwerw

yn rhy ddrud


Dw i'n cytuno achos ...

Dw i'n anghytuno achos ...

Ysgrifennwch am eich partner chi yma.

Hoff siocled	ydy achos
--------------	-----------

Geirfa	
hyn	this
colofn	grid
uchod	above
rhy	too
hoff	favourite



4. Beth ydy hoff siocled y dosbarth?
Gwnewch holiadur i weld beth ydy hoff siocled y dosbarth.

Yna, gwnewch graff neu ddiagram Venn i ddangos beth ydy hoff siocled y dosbarth.

Yna, eglurwch y graff yn Gymraeg, e.e.

Mae deg yn hoffi ...

Mae wyth yn hoffi ...

Mae dau ddeg y cant o'r dosbarth yn hoffi ...

Mae pum deg y cant o'r dosbarth yn hoffi ...

